## CABINET Y CYNGOR 20130716

**Yn bresennol** – Y Cynghorydd Dyfed Edwards (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr – Sian Gwenllian, W. Gareth Roberts, Ioan Thomas, RH Wyn Williams, Peredur Jenkins, John Wyn Williams, John Wynn Jones a Brian Jones.

**Hefyd yn bresennol** – Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dilys Phillips (Swyddog Monitro), Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), William Jones , (Uwch Reolwr Cyllid), Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol), Iwan G D Evans (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Lewis (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Statudol/Pennaeth Gwas Cym,Tai a Hamdden), Dewi Lake (Rheolwr Arweiniol Ad-drefnu Ysgolion Uwchradd), Guto Rhys Huws (Cydlynnydd Rhaglenni Ad-drefnu Ysgolion), Roland Evans (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Rhian Tomos (Arweinydd Tîm Cefnogi'r Cabinet).

**Aelod lleol:**
Y Cynghorydd Selwyn Griffiths (Eitem 6)

**Pencampwr Pobl Hŷn:**
Y Cynghorydd Gareth Thomas (Eitem 6)

### 1. CROESAWU/YMDDIHEURIADAU/CYDYMDEIMLO

Croesawyd aelodau'r Cabinet, aelodau'r cyhoedd, aelodau etholedig, y Wasg a'r swyddogion i'r Cyfarfod. Roedd ymddiheuriad wedi'i dderbyn gan y Cynghorydd Paul Thomas.

Fe wnaeth yr Arweinydd estyn ei gydymdeimlad â'r Cynghorydd Gwen Griffiths, oedd yn bresennol yn y cyfarfod, ar golli ei mam yn ddiweddar.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Peredur Jenkins fuddiant personol parthed eitem 12 gan ei fod yn aelod o Fwrdd Llywodraethol Ysgol y Gader. Roedd yr Aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem.

Datganodd y Cynghorydd Gareth Roberts fuddiant personol parthed eitem 13 gan ei fod yn aelod o Fwrdd Llywodraethol Ysgol Llidiardau. Roedd yr Aelod o'r farn

nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o bwyllgorau craffu.

**5. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod Cabinet y Cyngor a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2013 fel rhai cywir.

**6. ANGHENION LLETY A GOFAL POBL HŶN YN NALGYLCH PORTHMADOG**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Wyn Williams, Aelod Cabinet Gofal.

**PENDERFYNIAD**

- cynnal ymgynghoriad statudol ynglŷn â dyfodol Cartref Hafod y Gest, yn benodol ynglyn â'r opsiwn a ffefrir, sef dirwyn i ben ei ddefnydd fel cartref preswyl.
- derbyn argymhellion y Grŵp Aelodau Lleol, a bod ystyriaeth yn cael ei roi i ôl-ddefnydd safle cartref Hafod y Gest ar gyfer datblygu cynllun tai gofal ychwanegol fyddai'n cynnwys nifer o gartrefi wedi'u clustnodi i ddarparu gofal arbenigol yn hytrach nag uned breswyl gydag adroddiad yn cael ei gyflwyno'n ôl i'r Cabinet yn yr hydref.
- yn sgîl yr uchod, fod angen adolygu gofynion defnyddwyr canolfan ddydd Noddfa Madog gan sicrhau gwasanaethau sy'n ymateb i'w hanghenion pe byddai defnydd y Ganolfan yn dod i ben.

**7. CYNLLUN PANELI PV CYNHYRCHU TRYDAN – GWEDD 2**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Roberts, Aelod Cabinet Amgylchedd.

**PENDERFYNIAD:**

Fod y Cyngor yn bwrw 'mlaen i fuddsoddi yn ail wedd y cynllun paneli PV cynhyrchu trydan yn dilyn llwyddiant y cynllun peilot.

**8. CYLLIDEB REFENIW 2013/14 – ADOLYGIAD CHWARTER 1AF**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau.

**PENDERFYNIAD:**

- Nodi'r rhagolygon diweddaraf o sefyllfa cyllideb 2013/14 a gofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglyn â materion o dan eu rheolaeth.
- Cymeradwyo dychwelyd arian 'bid' (£110k) o'r gyllideb Addysg i falansau cyffredinol.

**9. RHAGLEN GYFALAF 2013/14 - ADOLYGIAD CHWARTER CYNTAF (30 MEHEFIN 2013)**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau.

**PENDERFYNIAD:**

Cymeradwyo'r ariannu addasedig.

**10. SICRHAU GWASANAETHAU CYNALIADWY MEWN CYFNOD ANODD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau.

**PENDERFYNIAD**

Nodi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf, ac yn wyneb y newidiadau sylfaenol yma, y dylid argymell i'r Cyngor y dylid ail ymweld â'r Cynllun Asedau i weld a oes cyfleoedd yn y fan honno i leihau galwadau ariannol ar y Cyngor a'n bod hefyd yn ail ymweld â'r Cynllun Strategol ei hun er mwyn adnabod pa gynlluniau sydd yn hollol angenrheidiol eu cyflawni a pha rai y gellir eu hail ystyried.

**11. AMGUEDDFA AC ORIEL GWYNEDD: CYNLLUNIAU DATBLYGOL A GOBLYGIADAU AR DDEFNYDD NEUADD Y DREF, BANGOR**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. John Wynn Jones, Aelod Cabinet Economi.

**PENDERFYNIAD**

Rhan A

- Cymeradwyo'r bartneriaeth newydd gyda Phrifysgol Bangor er mwyn datblygu model gweithredu trawsnewidiol a chynaliadwy newydd ar gyfer Amgueddfa ac Oriel Gwynedd ar sail model prif ganolfan a lloerennau.

- Cymeradwyo'r defnydd o Blas yr Esgob, Bangor (Neuadd y Dref) fel lleoliad newydd ar gyfer Amgueddfa ac Oriel Gwynedd fydd hefyd yn darparu pwynt mynediad at wasanaethau Cyngor Gwynedd a phwynt gwybodaeth twristiaeth.
- Cymeradwyo cyfraniad o £150,000 o'r Gronfa Cydariannu tuag at y prosiect.
- Cefnogi'r cais gwerth £2.6m sydd wedi ei gyflwyno i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer gweithredu'r Achos Busnes newydd.

Rhan B

- Cymeradwyo adleoli staff presennol Cyngor Gwynedd sydd wedi eu lleoli ym Mhlas yr Esgob, Bangor i swyddfeydd amgen ym Mangor neu o fewn cyffiniau Bangor / Caernarfon gydag opsiynau i'w datblygu'n llawn a'u cytuno gyda'r Aelodau Cabinet a'r Gwasanaethau perthnasol.
- Bod yr Adran Economi a Chymuned yn ceisio lleihau'r costau adleoli a chostau unwaith ac am byth gymaint â phosib a bod y Cabinet, yn amodol ar fodloni'r Pennaeth Cyllid (mewn ymgynghoriad gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol) ynglŷn ag angen a'r achos busnes, yn cymeradwyo:
- Clustnodi cyfanswm o £174,000 i'w ariannu o gronfeydd cyfredol er mwyn 'pontio' cost swyddfeydd amgen fydd hyd at £43,500 y flwyddyn am gyfnod hyd at 4 blynedd.
- Clustnodi hefyd hyd at £25,000 eto o gronfeydd ar gyfer cwrdd â chostau unwaith ac am byth o adleoli staff a chanfod swyddfeydd; yn ogystal â chostau ychwanegol i ddarparu gofod Siop Gwynedd.

## 12. TREFNIADAETH ADDYSG – CYMUNED DYSGU GYDOL OES DOLGELLAU – YMGYNGHORI

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Sian Gwenllian, Aelod Cabinet Addysg.

**PENDERFYNIAD**

- Cymeradwyo'r weledigaeth.

- Dirprwyo'r hawl i'r Aelod Cabinet Addysg benderfynu ar gynnal proses ymgynghori statudol yn seiliedig ar gynnig i sefydlu Ysgol Ddilynol yn nhref Dolgellau yn unol â'r adroddiad gan gynnwys ymgynghori ynglyn â chategori cyfreithiol posib yr Ysgol Ddilynol; Cymunedol ynteu Ysgol Gymorthedig a Reolir – gyda chymeriad grefyddol ddynodedig (Eglwys yng Nghymru), gan ddal sylw at ofynion y Côd Trefniadeth Ysgolion arfaethedig, cynnal rhagymgynghoriad gyda'r Eglwys yng Nghymru, ac ymateb i ganlyniad y rhagymgynghoriad.
- Datblygu opsiynau ac achos busnes cadarn i ddatblygu safle Ysgol Gynradd Dolgellau fel rhan o geisiadau'r Cyngor yn Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain Llywodraeth Cymru.

13. **TREFNIADAETH ADDYSG - YSGOL LLIDIARDAU – RHYBUDD STATUDOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Sian Gwenllian, Aelod Cabinet Addysg.

**PENDERFYNIAD**

i. Cadarnhau'r cynnig a roddwyd drwy rybudd statudol, i gau Ysgol Llidiardau, Rhoshirwaun ar Awst 31, 2013, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Crud y Werin, Aberdaron o 1 Medi 2013;

ii. Cadarnhau'r trefniadau cludiant ar gyfer y cyfnod trawsnewidiol yn unig, pryd bydd cludiant di-dâl i'r disgyblion hynny sydd wedi cofrestru yn Ysgol Llidiardau ar hyn o bryd, i Ysgol Crud y Werin, Aberdaron neu Ysgol Pont y Gof, Botwnnog yn benodol, os yn byw dros 2 filltir i'r ysgol a ddewisir, neu yn derbyn cludiant am ddim oherwydd natur y ffordd yn unol â pholisi cludiant cyfredol. Byddai hyn yn drefniant dros dro ar gyfer disgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol ar 31 Awst 2013 yn unig ac am eu cyfnod yn yr ysgol.

Dechreuodd y cyfarfod am 1 o'r gloch a daeth i ben am 3.45 o'r gloch.

____________________

**CADEIRYDD**